DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 26 MAI 2016 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 26 MAY 2016, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber, City Hall, Cathays Park, Cardiff on Dydd Iau, 26 Mai 2016 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

David Marr

**David Marr**
**Swyddog Monitro Dros Dro**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 20 Mai 2016

1 **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.*

2 **Datgan Buddiannau**

***Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).***

3 **Ethol Arglwydd Faer y Cyngor ar gyfer 2016/17**

*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor yn ethol Arglwydd Faer y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol.*

*Bydd yr Arglwydd Faer yn annerch y Cyngor.*

4 **Ethol Dirprwy Arglwydd Faer y Cyngor ar gyfer 2016/17**

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor yn ethol Dirprwy Arglwydd Faer y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol.

5 **Pleidlais o Ddiolch**

*Arweinydd y Cyngor i gynnig pleidlais o ddiolch i'r Arglwydd Faer blaenorol a chyflwyno bathodyn iddo.*

*Y Cynghorydd Walker, yr Arglwydd Faer diwethaf, i ymateb.*

6 **Cofnodion** *(Tudalennau 1 - 56)*

*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2016 fel cofnod cywir.*

7 **Ymrwymiad Caerdydd i Gynghorwyr** *(Tudalennau 57 - 60)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Aelodau i gadarnhau eu hymrwymiadau i egwyddorion Ymrwymiad Caerdydd fel y'u mabwysiadwyd a chydymffurfio i ymrwymiad ychwanegol i ddiogelu a hyrwyddo cyfleoedd bywyd plant dan ofal y Cyngor, a chyflawni'n ddiwyd eu cyfrifoldebau fel Rhiant Corfforaethol i'r plant hyn.*

8 **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**

*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.*

9 **Cyhoeddiadau'r Arweinydd**

*Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd mewn perthynas â'r flwyddyn drefol sydd i ddod.*

10 **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol; Sefydlu Pwyllgorau, eu maint, eu cylch**

**gorchwyl a dyraniad seddi arnynt.** *(Tudalennau 61 - 82)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, yn penderfynu ar unrhyw ddiwygiadau i'w bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn drefol, maint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny, a'r seddi i'w dyrannu i grwpiau gwleidyddol yn unol ag Adran 17 rheolau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â Chydbwysedd Gwleidyddol*

*Gofynnir i'r Cyngor dan yr eitem hon gymeradwyo trefniadau amgen i sicrhau cymesuroldeb gwleidyddol llwyr o ran penodiadau i'r holl bwyllgorau, a rhaid sicrhau pleidlais unfrydol yn hyn o beth.*

**11 Enwebu Aelodau i wasanaethu ar bob Pwyllgor a sefydlir ac Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd.** *(Tudalennau 83 - 90)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, yn derbyn enwebiadau Aelodau i wasanaethu ar bob pwyllgor, yn penodi i'r pwyllgorau hynny, ac yn ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd ar gyfer pob un o'r pwyllgorau hynny.*

**12 Enwebu Aelodau i Wasanaethu ar Gyrff Allanol.** *(Tudalennau 91 - 96)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, yn derbyn enwebiadau Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol ac yn penodi i'r cyrff allanol hynny, ac eithrio lle bo penodiadau i'r cyrff hynny wedi'u dirprwyo gan y Cyngor, neu os mai dim ond y Cabinet all benodi iddynt.*

**13 Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion** *(Tudalennau 97 - 104)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethu'r Awdurdod Lleol 19 Mai 2016.*

**14 Gorchymyn Awdurdodau :leol (Cod Ymddygiad Model) (Cymru) (Diwygiad) 2016 – Mabwysiadu Cod Ymddygiad Newydd i Aelodau.** *(Tudalennau 105 - 124)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro.*

**15** **Atodlen Cydnabyddiaeth Aelodau 2016/17** *(Tudalennau 125 - 136)*

*Adroddiad y Prif Weithredwr*

*Y Cyngor i gymeradwyo lefelau rhagnodedig taliadau cydnabyddiaeth a lwfansau Aelodau sy'n daladwy yn 2016/17 fel y penderfynir arnynt gan Banel Taliadau Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru.*

**16** **Rhaglen Cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau 2016/17** *(Tudalennau 137 - 144)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, yn cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd arferol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

**17** **Penderfyniad Brys ar Ysgol Uwchradd Woodlands** *(Tudalennau 145 - 146)*

*Adroddiad y Swyddog Monitro Dros Dro.*

*Adroddwyd i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.*

**18** **Materion Brys (os o gwbl)**

*Ystyried unrhyw faterion y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn rhai brys yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor.*